# *Carchar-Fyfyrdodau*

# IOAN BUNYAN,

GWEINIDOG Y BEDYDDWYR YN BEDFORD,

A ysgrifenwyd ganddo ef ei hun pan oedd yn Garcharor yno, 1665, am na chyd-ymffurfiai â Seremoniau Eglwys Loegr:

WEDI EU CYFEIRIO

## AT GALONAU SAINT YN DYODDEF, A PHECHADURIAID YN TEYRNASU.

*Aberystwyth: Argraffwyd gan James a Williams.---Prîs Ceiniog.*

1 FFRYND yn yr Arglwydd hylwydd, hy,
Rho'f it' gyfarchiad cariad cu,
Mewn Ffydd boed i ti gynnydd gwîr,
Cais rodio'n dal ar sanctaidd dîr.

2 'Rwyt yn fy annog byth heb baid,
I ddal fy mhen uwch llîf a llaid;
Nac aur gwell yw dy gynghor di,
Ei eisiau'n fawr oedd arnaf fi.

3 Mae cynghor da bob pryd yn dda,
A'r doeth a'i derbyn yn ddina',
Er bod rhai ffôl yn cyfri'r dyn
Rydd gynghor da'n droseddwr blin.

4 'Rwy'n cym'ryd ar dy law'n bur lwys,
'Sgrifenu ataf fi mor fwys;
Fy nhraed ar fynydd Seion sydd,
Am hyn bydd lawen un diludd.

5 Fy nghorph yn siwr mewn carchar sydd,
Ond etto'm meddwl rêd yn rhydd,
I 'studio Crist, gan wel'd heb wae,
Y môdd i mi mor fwyn y mae.

6 Er cadw fy allanol ddyn,
Rhwng byllt a bàrau cedyrn cyn,
Trwy ffydd yn Nghrist, f' anwylaf Nêr,
Mi allaf saethu uwch y sêr.

7 Ni attal byllt ysbrydoedd byw,
Nac ysgar rhyngof 'chwaith a'm Duw,
Na chloffi'm ffydd, a'm gobaith gu,
Câf fyn'd uwchlaw'r cynddeiriog lu.

8 Mae'n gysur da i'm nôs a dydd,
I feddwl pan yr o'wn yn rhydd,
Pregethais hêdd a bywyd rhâd,
I bechaduriaid trwy 'r holl wlâd.

9 Achub eneidiau oedd fy swydd,
Trwy ddewr bregethu ffydd yn rhwydd;
O hyny 'n awr im' cysur sydd,
Ac felly câf hyd angeu ddydd.

10 Nid chwedlau cyfrwys ddysgodd dyn,
O'wn yn bregethu yn fy ngwŷn;
Ond gwîr air Duw, trwy 'r hwn heb lai,
Y daliwyd pechaduriaid rai;

11 Pa rai a wnaed i wel'd yn wiw,
Eu pechod yn ei lun a'i liw;
Ac eisiau'r Iesu i'w rhyddhau,
Rhag angeu cul oedd wedi cau.

12 'N awr y calonau gynt ag oedd
I Dduw'n elynion gwyllt ar g'oedd,
Cofleidiant Grist a'i air fel gwyr,
Gongcwerwyd gan ei eiriau pur.

13 Clywaf eu griddfan llwys a'u llêf
At Iesu Nâf am râs o'r nêf,
Cashau eu pechod a'i farwhau,
Sancteiddrwydd carant heb nacau.

14 Hyn oedd fy ngorchwyl yn ddi-fraw,
Pan gosodasant arnaf law;
Ac oddiwrth hyn tŷnasant fi,
Gan weiddi'n groch mewn uchel gri,

15 Chwi Hereticaidd dwyllwr dewch,
I garchar caeth 'nawr myned cewch;
Pregethu maes, nid trigo'n nhrê',
I'r eglwys gelyn yn ddi-ble.

16 Ond gan fod hêdd yn f' enaid hy,
'Nghyd â'r gwirionedd têg o'm tu,

LW 732
OC 35000132

Mewn cysur gall'swn drechu 'n drwch,
A'u cwynion llym eu gwawdio 'r llwch.

17 Felly i Garchar cyrchwyd fi,
Lle 'r wyf hyd heddyw yn ddi-fri;
A thros fy mhroffes wiwles wen,
'Rwy 'n foddlon myn'd i'r tân a'r pren.

18 Y carchar im' yn felus fu,
Er pan y de's o fewn ei dŷ:
Byddai 'r crogbren yr un môdd,
Os Duw ddatguddia 'i gariad rhodd.

19 Cydwybod hy sydd im', a hêdd,
A'm gwisgoedd, gwynion y'nt eu gwêdd;
Er mewn rhwymau, etto yn rhydd,
Rhag brath euogrwydd nôs a dydd.

20 Pan sôn maent am fy nghŷru o'u clyw,
Angeu, a phethau o'r unrhyw;
I'm calon denfyn Duw o'r nêf,
Ddiddanwch grâs fel ffynnon grêf.

21 Mor lleied wyddant hwy pwy dda
Maent yn wneud im' trwy 'u trais a'u tra;
Cynhydda 'u llîd fy nghysur llwys,
Bendithiaf Dduw am hyn yn ddwys.

22 Pan i yfed, bustl rho'nt mor rhydd,
Melusa Duw ef nôs a dydd,
I'r cyfryw radd na wyddant ddim,
Ei flas y mae mor felus im'.

23 Fel ag mae'r fall yn dodi o'm bla'n
Orthrymder, gofid mawr a mân,
Mae Duw yn dodi Crist a'i râs,
Yn llawer mwy i'm dal i ma's.

24 Er d'wedant, Ffoliaid y'm heb ble,
O herwydd gorwedd yn fath le:
'Rwy 'n ateb, mai ysgolion yw
Carcharau 'n dysgu marw yn fyw.

25 Nid yw 'r hwn waelder, llymder lle,
Yn attal naws ar Frenin nê';
Can's atom neidia fore a nawn,
Grâs-ymweliadau yn fynych cawn.

26 Saint ac angylion sydd yn d'od
I'n gwel'd, ac Ysbryd Duw 'n ddio'd,
I'n sirio yn ein carchar cry',
Tan wialen lem yr anwir lu.

21 Mynychach weithiau 'mwel Duw 'r grâs,
A'r carchar blin na'r breiniol blâs;
Wrth yr hwn ddrws yn curo mae,
Pan mynych teithia heibio'n tai.

28 Mae sylwedd nefol bethau sy,
Yn codi 'n calon fynu fry,
Ar aden eryr yn ein dwyn,
Goruwch cnawdoldeb byd anfwyn.

29 Mae 'n tỳnu ffwrdd bob rhwystrau ffôl,
Sy 'n cadw llawer 'nawr yn ol,
'N ein gwneud yn fywiog ac yn hyf,
I nerthol wrthladd pechod cryf:

30 Trwy 'r hyn mae Duw 'n diffrwytho 'n ffri,
Ddysgwyliad ein gelynion ni,
Sef buan droi 'n wrthgilwyr gwael,
Fel sect ddiras hên Suddas sael.

31 Mae 'n d'od i'n cof ar hyn o hynt,
Y gofid ga'dd duwiolion gynt;
Ac er ein cymhorth, heb ddim cudd,
Eu gwleddau brâs pan oeddynt brudd.

32 I'r rhai sydd yma am eu bai,
Digysur yw y lle, nid llai;
Ond nid i mi, Cyfiawnder Ne'
Yw 'r achos llysgwyd fi i'r lle.

33 Fi a'r gwirionedd yr un pryd,
Gyd-daflwyd yma: (gwîr di-gryd)
Gyd-orwedd fraich yn mraich heb ball,
Pob un yn llòn yn dal y llall.

34 Fel uchel fryn yw 'r carchar hwn
I ni, lle gwelwn yn ddidwn,
Tu hwnt i'r byd, gan wledda 'n wîr,
Ar bethau da y bythol dîr.

35 Oddiyma gwelwn ar un waith,
I holl wageddau daear faith;

Cawn hefyd brofiad er ein bri,
O wynfyd nêf sy 'n ol i ni.

36 Oddiyma gwel'd yr y'm bob rhai
Yn gwneud eu rhan, fel chwarwyr chwai;
Rhai *da* 'n ffyrdd Duw yn cael eu clwy',
Rhai *drwg* yn llidio wrthynt hwy.

37 Odd'yma gwelwn mewn môdd gwîr,
Pwy droedia 'n dêg 'sgrythyrol dîr;
Hefyd pwy sy 'n troi 'n eu hynt,
Fel ceiliogod gwael y gwynt.

38 Oddiyma gwelwn yn ddigudd,
Rai ffryns yn ddangosiadol sydd,
Mai twyllwyr ydynt, fel y d'wed
Yr ysgrythyrau 'n llawn ar lêd.

39 Pan oeddym rydd yn teithio tîr,
Hwy a'n twyllasant, hyn sydd wîr;
Ond 'n awr ni a welwn yn ddigel,
Nad y'nt ond ffeilsion, swrth, di-*zêl*.

40 A'r bydol-ddoethion yn eu dydd,
Wnaeth broffes fwyn am fydol fudd,
Nid y'nt ddim gwell i'n golwg 'n awr,
Na ffrins hên Machiafilian fawr.

41 Anmharchu 'n hunain 'r y'm, medd rhai,
Wrth orwedd yn fath ffiaidd ffau,
Yn mhlith rhai drwg: ond etto Crist
A'n cyfiawnha, mae genym dyst.

42 Ni a wyddom nad oes gwg na gwawd,
Ddyoddefir 'n awr dros Grist ein Brawd,
Na lawn wobrwyir gantho ef,
Pan daw ar noeth gymylau 'r nêf.

43 Pan dengys e 'n cyfiawnder hyn,
Fel heulwen fry ar uchel fryn,
Gan 'sgubo 'n llwyr bob peth i'r llawr.
Y bernir ni gan wawdwyr 'n awr.

44 Dedwyddwch dae'r, ni a'i gwerthwn ef,
Am dŷ a nodded yn y nêf;
Gadawn y byd lle 'r y'm heb ball,
Mae 'n llawer llai a gwaeth na 'r llall.

45 Llwch am aur yn rhwydd ni a'i rho'wn;
O angeu'n ffri i'r bywyd ffown,
Yn iach gysgodau, 'maflyd wnawn
Mewn anfarwoldeb, llondeb llawn.

46 Masnachu'r y'm am bethau'r nê',
Heb roi dim arall yn eu lle,
Ond eisoes'r hyn a feddai 'fo,
Trwy'r hwn 'r y'm ni yn byw'n ein bro.

47 Ein rhydd-did collwn er ei fwyn,
Afiechyd all'sai ffwrdd ei ddwyn;
Am bechod gall'sai'n moddion mau,
Trwy dân a lladron fyn'd yn llai.

48 'N awr gwelwn pa ogoniant pur,
O ddwyn ein croes heb achwyn cur,
Tros yr hwn gym'rai 'i groes heb gri,
Pan ddaeth o'r nêf yn wâs i ni.

49 Rho'f gènad gu 'n awr yn eich gŵydd,
I dyllu twll trwy 'nghlust yn rhwydd,
Os rhowch im' sierwydd yn ddi-blê,
Y crogwch berlyn wrtho e'.

50 Felly yn gymhwys tros yr Oen,
Dyoddef yma 'chydig boen,
Pan y daw'r ail waith o'r nen,
Cawn cyd-deyrnasu byth uwch ben.

51 Os rhaid i bawb o herwydd bai,
Ddyoddef angeu mwy, neu lai,
Neu herwydd Crist, can' gwell yw gwawr,
'R un tros yr olaf syrth i'r llawr.

52 Yn awr pwy feiddiai ddweyd ein bod
Yn gwerthu'n rhydd-did yn ddi-glôd,
Pan dd'wed gair Duw ein bod ni trwy
Hyny yn ennill llawer mwy.

53 Etto clywch chwi gnawdol rai,
Yr hyn wy'n ddywedyd yn ddiau,
Yn eich priodol iaith eich hun,
A chwedi'n llonydd i'ch bob un.

54 Am lewder soniwch weithiau'n siwr,
Gan gyfrif hwnaw yn benaf gwr,

Na ofno ymladd yn ddiwad,
Ag un gwr glew o fewn ein gwlâd.

55 Os teilwng glwys yw rhai 'n o glôd,
Am wâg-ymffrostio rhwysg a rhôd,
P'odd beiddiwch farnu neb o'r rhyw,
Sy 'n filwyr dewr yn aches Duw?

56 Chwi dòrwch ben enciliwr clau,
Am bin chwi godwch frwydr frau,
Yn erbyn pechod y rhai drwg,
Ni feiddiwch ddweyd rhag ofn eu gwg.

57 Er dewred yw 'ch ysbrydoedd chwi,
Amryw fatterion gwâg difri,
Mae pechod wedi 'ch cylchu 'n grwn,
'Ry'ch gan y fall yn gaeth mi a'i gwn.

58 Ni feiddiwch sefyll dros y gwîr,
Can's crynu 'r y'ch rhag carchar hîr;
Ni feiddiwch chwareu ar y pren,
Eich rhan dros Grist Tywysog nen.

59 Gwybyddwch 'n awr, le glewder gwiw,
Sef yn y rhai sy 'n ddewr dros Dduw,
Yn erbyn diafol, angeu dû,
Er gwaetha gwiail y drwg lu.

60 Dyma'r rhai y'nghyfrif Duw,
Sydd lew eu bryd heb ofni briw;
Dyma 'r dynion ffodd heb ffael,
Goruwch cyrhaeddiad natur wael.

61 Yn gynta'n calon conc'rant hwy,
Pob bydol ofnau tòrant trwy,
Hên Satan tôst a'i saethau tân,
Erlydiol ddynion fawr a mân.

62 Conc'ro maent wrth gwympo 'n gu,
Yn lladd wrth farw 'n hoyw hy;
Yn conc'ro fwyaf, pan i lawr
Y curir hwy gan angeu cawr.

63 Ond plant y byd ni ddëall hyn,
Mae 'mhell uwchlaw eu synwyr sŷn;
Eu gwynfyd ceisiant yn y byd,
Gan sathru 'r glwys ogoniant clyd.

64 Ni all y llwfr yn y llu,
Byth neidio i'r faingc fel campwr cu,
Dylluanod nôs a'r cogfrain mân,
Os yn y cwch ddychymmyg cân.

65 Ni phrisia'r moch mo'r perlau pur,
Eu sathru wnant fel soegion sur;
Ond etto'r doeth farchnatwr da,
Am danynt mawr lafurio wna.

66 Ystyria ddyn wy'n ddweyd, o dde',
Iawn farna bob peth yn ei le;
Pan chwario pawb eu rhan eu hun,
Ceir gwel'd pwy deca', lòna'i lun.

67 Ai'r rhai a'n bwriodd yma i lawr?
Neu'r rhai sydd yn ein gwawdio'n fawr?
Neu'r rhai sy'n tôst anrheithio'n tai?
Neu ni sy'n dyodde'n fwyn heb fai?

68 Cyfrifwn hwnw'n benaf beth,
Yn olaf fydd heb unrhyw fêth;
A'r dynion hyny'r dedwydd rai,
Sy'n dal y pethau sy'n parhau.

69 Beth! er eu bod yn costi'n ddrud,
Ymrown eu prynu ar bob pryd;
Cawn wel'd nad colled fydd ein gwaith,
Pan fo rhai mall mewn poenau maith.

70 Na feiwch mwy ar seintiau grâs,
Trwy eich doethineb cnawdol câs;
Ond gwrided y drygionus rai,
Gan faint eu llîd, a'u gwawd nid llai.

DIWEDD.

---

*ABERYSTWYTH*:
ARGRAFFWYD GAN JAMES A WILLIAMS:

Lle y mae yn barod i'r Wasg, y Lyfrau hyny a elwir Y RHEDEGWR YSBRYDOL, a THEML SALOMON WEDI EI HYSBRYDOLI, y ddau o waith IOAN BUNYAN.

1809.